| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **12 Mai 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Jason McLellan** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Teitl:** | **Adroddiad blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â gweithgareddau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (y Pwyllgor) ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2014/15.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I hysbysu'r holl aelodau o waith y Pwyllgor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Dylai Aelodau nodi cynnwys yr adroddiad.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae'n statudol ofynnol i'r Cyngor, dan ddarpariaethau Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011, gael Pwyllgor Archwilio. Y Pwyllgor yw pwyllgor dynodedig y Cyngor ar gyfer y diben hwn. Rôl statudol y Pwyllgor Archwilio yw adolygu a chraffu ar faterion ariannol yr awdurdod, llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod, adolygu ac asesu'r gweithdrefnau rheoli risg, trefniadau rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol yr awdurdod a gwneud adroddiadau ac argymhellion i'r awdurdod ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny.

Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor oruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod, ac adolygu'r datganiadau ariannol a lunnir gan yr awdurdod. Y Pwyllgor hefyd yw'r corff sy'n gyfrifol am gadw'r Cyfansoddiad dan arolwg.

4.2 Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn sicrhau bod aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys chwe aelod etholedig ar sail cydbwysedd gwleidyddol. Nid oes gofyniad statudol i'r Pwyllgor fod yn wleidyddol gytbwys. Mae gofyniad statudol i gael o leiaf un aelod lleyg annibynnol o'r Pwyllgor a'r aelod lleyg presennol yw Mr Paul Witham.

4.3 Bydd Swyddog s151 y Cyngor, y Swyddog Monitro a Phennaeth Archwilio Mewnol neu eu cynrychiolwyr yn mynychu pob cyfarfod y Pwyllgor. Yn ogystal, bydd swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru yn mynychu pob cyfarfod.

4.4 Mae Cadeirydd y Pwyllgor wedi paratoi adroddiad o weithgareddau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf sydd ynghlwm fel Atodiad 1.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae gwaith y Pwyllgor o ran craffu ar faterion ariannol, gweithdrefnau rheoli risg a llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni'r Blaenoriaethau Corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.

7.1 Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

8.1 Mae'r Cadeirydd wedi rhoi adroddiad llafar i'r Pwyllgor.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae'r Pwyllgor yn rhan allweddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor. Mae craffu effeithiol o brosesau ariannol, systemau a thrafodion sylweddol yn elfen hanfodol o reolaeth fewnol ac yn darparu lefel o sicrwydd i'r cyngor ehangach a rhanddeiliaid eraill.

## 10. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Y risg o beidio â chael Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol neu Bwyllgor Archwilio effeithiol yw nad oes unrhyw oruchwylio ar lywodraethu corfforaethol y Cyngor, sydd yn rhan allweddol o berfformiad da. Gall Llywodraethu Corfforaethol Gwan gyfrannu at fethiannau o ran darparu gwasanaethau.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Nid oes angen gwneud penderfyniad o ganlyniad i'r adroddiad hwn.